Hawdd ei Ddeall

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board

# Uned Mân Anafiadau yn Ysbyty Tywysog Philip, Llanelli

Beth ti'n meddwl am y gwasanaeth?




# Hawdd ei Ddeall




Dyma fersiwn Hawdd ei Ddeall o rywfaint o wybodaeth. Falle nad yw’n cynnwys y wybodaeth i gyd ond mae’n dweud am y rhannau pwysig.



Mae’r llyfryn Hawdd ei Ddeall hwn yn defnyddio geiriau haws a lluniau. Falle fydd dal angen help ar rai pobl i’w ddarllen.




Mae rhai geiriau mewn **print trwm** – sef bod yr ysgrifen yn fwy trwchus ac yn dywyllach. Mae’r geiriau hyn yn bwysig.




Ambell waith, os yw gair mewn print trwm yn anodd ei ddeall, byddwn yn esbonio’r gair.




Mae geiriau glas wedi’u tanlinellu yn dangos dolen i wefan neu gyfeiriad ebost. Gallwch glicio ar rhain ar gyfrifiadur.

# Beth sydd yn y llyfryn


Gwybodaeth am y llyfryn ....................................................4

Gwybodaeth am yr Uned Mân Anafiadau ............................5

Gwybodaeth am yr arolwg ................................................8


Gwybodaeth am y 4 dewis................................................12

Cwestiynau i ti.................................................................21

Cwestiynau amdanat ti ....................................................29

# Gwybodaeth am y llyfryn

Mae'r llyfryn hwn gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.



Ni sy'n darparu gwasanaethau iechyd i bobl Gorllewin Cymru.




Ni am wybod beth ti'n meddwl am y gwasanaethau yn yr **Uned Mân Anafiadau** yn Ysbyty Tywysog Philip yn Llanelli.



Mae **Uned Mân Anafiadau** yn helpu pobl gyda pethau fel briw bach neu losgiad bach.




Mae'r llyfryn yn rhoi gwybodaeth i ti ac yn gofyn rhai cwestiynau i ti.

# Gwybodaeth am yr Uned Mân Anafiadau



Mae Uned Mân Anafiadau yn gofalu am bobl sydd angen gofal yn gyflym, ond sydd ddim yn argyfwng.



Mae'r Uned Mân Anafiadau yn gofalu am oedolion a phlant dros 12 oed ar gyfer pethau fel:



- Briwiau bach.



- Cnoad neu bigiad bach.



- Llosgiad neu sgaldiad bach.

Mae’r Uned Mân Anafiadu hefyd yn gofalu am:



- Anaf bach i’r pen.



- Pethau’n sownd yn y glust neu’r drwyn.



- Anaf bach i fraich neu goes.



- Anaf bach i’r llygaid.





Mae’r Uned Mân Anafiadu ond yn gofalu am anafiadu bach fel hyn. Dim Adran Argyfwng (A&E) yw hi.




Roedd rhaid newid oriau agor yr Uned Mân Anafiadau yn Ysbyty Tywysog Philip yn Llanelli ym mis Tachwedd 2024.




Roedd yr uned yn arfer bod ar agor 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.




Mae'r uned nawr ar agor 12 awr y dydd, bob dydd rhwng 8:00am a 8:00pm.

Mae hyn oherwydd:



- Pryderon am pa mor ddiogel oedd y gwasanaeth.




- Dim digon o feddygon i weithio dros nos.

# Gwybodaeth am yr arolwg



Ni eisiau gwybod sut wyt ti'n meddwl y dylem redeg yr Uned Mân Anafiadau yn y dyfodol.




Ni am ofyn i ti am y 4 dewis sydd gyda ni.




Ni am i ti ddweud:

- Pa ddewis wyt ti'n meddwl fydd orau i gadw cleifion yn ddiogel ac yn helpu gan nad oes digon o staff.



- Unrhyw bryderon sydd gyda ti am y dewisiadau.



- Unrhyw beth arall sydd angen i ni feddwl amdano, gan gynnwys unrhyw syniadau newydd am beth y gallwn wneud gyda'r uned



Galli di gael gwybod mwy am y dewisiadau ar ein gwefan yma: [www.biphdd.gig.cymru/UMAYTP](http://www.biphdd.gig.cymru/UMAYTP)





Cofia anfon dy atebion i ni erbyn 22 Gorffennaf 2025.



Galli di anfon dy atebion i ni drwy: Llanw’r llyfryn hwn a’i bostio i ni.



Os oes angen copi arall o’r cwestiynau, galli di ffonio ni ar: 0300 303 8322




Dewis opsiwn 5, a rhoi dy gyfeiriad i ni fel ein bod yn gallu gyrru y llyfryn i ti.




Llanw’r llyfryn hwn a’i bostio i:

FREEPOST
HYWEL DDA HEALTH BOARD



Does dim angen stamp.



Bydd dy atebion yn ddienw. Mae hyn yn golygu na fydd neb yn gwybod mai dy atebion di yw nhw.




Paid ag ysgrifennu unrhyw beth yn yr ateb sy’n rhoi gwybod pwy wyt ti, fel dy enw neu dy gyfeiriad.



Does dim rhaid i ti ateb unrhyw gwestiwn os nag wyt ti eisiau.




Byddwn yn dilyn y gyfraith ar sut i gadw dy atebion yn ddiogel a phreifat.




Byddwn ni ond yn cadw dy atebion am 1 flwyddyn ar ôl gwneud penderfyniad am yr Uned Mân Anafiadau.




Galli di gael gwybod mwy ar ein gwefan am y ffordd ni'n cadw gwybodaeth yn ddiogel: https://biphdd.gig.cymru/amdanom-ni/trefniadau-llywodraethu/eich-gwybodaeth-eich-hawliau/hysbysiadau-preifatrwydd/

# Gwybodaeth am y 4 dewis




Mae gyda ni 4 dewis ar gyfer sut y gallai'r Uned Mân Anafiadau weithio yn y dyfodol.

Pa ddewis wyt ti'n meddwl fyddai orau i:




- Gwneud cleifion a staff yn ddiogel.



- Delio gyda dim digon o feddygon sy'n gallu gweithio dros nos.


# Dewis 1




**Byddai gwasanaeth yn cael ei arwain gan feddyg am 12 awr bob dydd.**



Dyma sut mae’r gwasanaeth yn rhedeg ar hyn o bryd.




Mae’r gwasanaeth ar agor o 8:00am i 8:00pm bob dydd.




Mae’r dewis hwn yn gwneud yn siŵr bod digon o staff er mwyn gofalu am gleifion yn ddiogel.




Ond mae'n golygu byddai pobol sy'n cael mân anaf tra bod yr uned ar gau yn gorfod teithio i ysbyty arall.




Neu byddai'n rhaid iddi nhw aros nes bod yr uned yn agor.


## Dewis 2




**Byddai gwasanaeth yn cael ei arwain gan feddyg am 14 awr bob dydd.**




Mae'r dewis hwn yn golygu byddai'r gwasanaeth ar agor am ddwy awr yn fwy bob dydd nag ar hyn o bryd.




Byddai ar agor o 7:00am i 9:00pm.



Byddai hyn yn delio gyda dim digon o staff, ond dim cymaint â dewis 1.



Byddai dal angen i bobl deithio i ysbyty arall neu aros os byddai’r uned ar gau.




Ond byddai’r uned ar gau am lai o amser. Byddai ar gau am 10 awr o 9:00pm i 7:00am.

# Dewis 3





**Cael y gwasanaeth yn ôl i fod ar agor am 24 awr dros amser.**




Byddai'r dewis hwn yn anelu at gael y gwasanaeth yn ôl i'r ffordd yr oedd yn arfer bod.




Byddai hyn yn digwydd dros amser, gan gynyddu pa mor hir y mae'r uned ar agor yn araf bach.




Byddai ar agor i ddechrau am 12 awr y dydd, fel y mae nawr.





Yna byddai'r uned ar agor am 14 awr y dydd.




Ac yna'n anelu at fod ar agor am 24 awr y dydd ar ôl hynny.



Byddai ei wneud fel hyn yn ein helpu gyda'r mater bod dim digon o staff ar hyn o bryd.





Byddai'n golygu bod dim rhaid i bobl deithio i ysbyty arall pan fydd yr uned ar agor 24 awr y dydd.




Ond falle na fyddai'r gwasanaeth yn ddiogel i gleifion os na fyddai digon o staff i weithio dros nos.

# Dewis 4




**Newid y gwasanaeth i Ganolfan Gofal Brys fyddai ar agor 14 awr y dydd.**




Mae **Canolfan Gofal Brys** yn gofalu am salwch sydd ddim yn argyfwng ar yr un diwrnod.




Mae'n gallu delio gyda llawer o broblemau iechyd, fel anafiadau bach a salwch arall.





Mae cleifion yn cael eu gweld ac yn cael eu trin ac yn gallu mynd adref ar yr un diwrnod.



Mae Canolfan Gofal Brys yn gweithio gyda gwasanaethau iechyd arall yn yr ardal i drin pobl.




Byddai newid yr Uned Mân Anafiadau i Ganolfan Gofal Brys yn ein helpu i weld a thrin mwy o bobl.




Byddai cael y gwasanaeth ar agor am 14 awr y dydd,




rhwng 7:00am a 9:00pm, yn helpu i ddelio gyda diffyg staff.




Byddai'r gwasanaeth yn fwy diogel i gleifion na gwasanaeth 24 awr gan y byddai mwy o staff.




Ond byddai'n rhaid i bobl fynd i ysbyty arall pan fyddai'r Ganolfan Gofal Brys ar gau.



Neu byddai'n rhaid aros nes ei fod ar agor.

# Cwestiynau i ti







Ateb y cwestiynau hyn a dweud beth wyt ti'n meddwl.

**Cwestiwn 1:** Pa ddewis wyt ti'n meddwl fyddai orau i gadw cleifion a staff yn ddiogel a delio gyda dim digon o feddygon?

- [x] Dewis 1 - gwasanaeth sy'n cael ei arwain gan feddyg am 12 awr bob dydd
- [ ] Dewis 2 - gwasanaeth sy'n cael ei arwain gan feddyg am 14 awr bob dydd
- [ ] Dewis 3 - cael y gwasanaeth yn ôl i fod ar agor am 24 awr dros amser
- [ ] Dewis 4 - Canolfan Gofal Brys ar agor 14 awr y dydd
- [ ] Dydw i ddim yn gwybod bod un dewis yn well na'r lleill
- [ ] Dydw i ddim yn gwybod




**Cwestiwn 2:** Dwed pam wyt ti'n meddwl mae'r un wyt ti wedi dewis fyddai orau i gadw cleifion a staff yn ddiogel a delio gyda dim digon o feddygon.




**Cwestiwn 3:** Sut allwn ni wneud yr un wyt ti wedi dewis hyd yn oed yn well?



**Cwestiwn 4:** Sut allwn ni wneud yn siwr bod yr un wyt ti wedi dewis ddim yn effeithio ar unrhyw un mewn ffordd wael?




**Cwestiwn 5:** A oes gyda ti unrhyw syniadau arall a fyddai'n well na'r dewisiadau sydd gyda ni hyd yn hyn?





**Cwestiwn 6:** A oes unrhyw beth arall wyt ti am ddweud wrtho ni?

Gallai hyn fod yn:



- Unrhyw beth wyt ti'n meddwl bod ni ddim wedi meddwl amdano




- Unrhyw beth am yr ysbyty.




- Cyrraedd yr ysbyty.




- Cefnogaeth i gleifion, ymwelwyr a staff.

# Trin pawb yn deg



Rhaid i ni feddwl sut gallai unrhyw newid i'r gwasanaeth effeithio ar wahanol grwpiau o bobl.



Gall hyn fod achos eu hoedran, anabledd, hil, crefydd neu rywbeth arall am eu cefndir.



**Cwestiwn 7:** Wyt ti'n credu gallai'r newid i'r gwasanaeth effeithio ar unrhyw grwpiau o bobl mewn ffordd dda neu ddrwg?

# Gwybodaeth am eich sefydliad

Os wyt ti'n ateb y cwestiynau hyn ar ran sefydliad, dwed hyn wrthym:




- Enw'r sefydliad.



- Ym mha grŵp neu adran y sefydliad rwyt ti'n gweithio.



- Pwy mae'r sefydliad yn cefnogi.



- Pwy mae'r sefydliad yn cefnogi.



- Sut wnes di wrando ar syniadau aelodau'r sefydliad.




Diolch am lenwi'r arolwg.




Anfon yr arolwg yn ôl erbyn 22 Gorffennaf 2025.




Galli di bostio'r arolwg am ddim.
Dyma ein cyfeiriad:

FREEPOST
HYWEL DDA HEALTH BOARD

# Cwestiynau amdanat ti



Ni eisiau gwneud yn siŵr bod ni'n clywed gan wahanol grwpiau o bobl sy'n byw yng ngorllewin Cymru.




Bydd ateb y cwestiynau hyn yn ein helpu i wybod wrth pwy ni wedi clywed.



Does dim rhaid i ti ateb unrhyw gwestiwn os nag wyt ti eisiau.



Os na fyddi di'n ateb y cwestiynau canlynol, byddwn yn dal i ddarllen ac yn cynnwys dy atebion yn yr arolwg.




**Cwestiwn 1:** Beth yw 5 llythyren a rhif cyntaf dy god post, fel SA14 8:



**Cwestiwn 2:** Beth yw dy oedran?
*Ticia un blwch*

- ☐ 18 i 24.
- ☐ 25 i 34.
- ☐ 35 i 44.
- ☐ 45 i 54.
- ☐ 55 i 64.
- ☐ 65 i 74.
- ☐ 75 a throsodd
- ☐ Dydw i ddim am ddweud.



**Cwestiwn 3:** Beth yw dy **rywedd?**

Dy **rywedd** yw sut wyt ti'n meddwl am dy hun. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn meddwl am eu hunain naill ai fel dyn neu menyw

☐ Dyn.

☐ Menyw.


☐ Anneuaidd – mae hyn yn golygu bod ti ddim yn meddwl am dy hun fel dyn na menyw.

☐ Gwryw Trans neu Dyn Trans.

☐ Benyw Trans neu Menyw Trans.

☐ Fi'n defnyddio gair arall ar gyfer fy rhywedd.

☐ Dydw i ddim am ddweud.




**Cwestiwn 4:** A ydy dy ryw yr un peth â'r rhyw cafodd ei gofrestru pan ges di dy eni?

- ☐ Ydy
- ☐ Nac ydy
- ☐ Dydw i ddim am ddweud



**Cwestiwn 5:** A wyt ti'n disgwyl babi neu wedi cael babi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Dydy hyn ddim yn berthnasol i fi
- ☐ Dydw i ddim am ddweud



**Cwestiwn 6:** A wyt ti'n meddwl am dy hun fel **anabl**?

Wrth **anabl**, ni'n golygu:



- Mae gen ti **nam** yn dy gorff neu dy iechyd meddwl.

  **Nam** yw pan dyw rhywbeth ddim yn gweithio cystal ag y dylai, fel corff neu feddwl person.



- Mae'r nam yn cael effaith ddrwg mewn ffordd mawr a pharhaol ar sut rwyt ti'n byw dy fywyd.

☐ Ydw

☐ Nac ydw

☐ Dydw i ddim am ddweud



**Cwestiwn 14**: Dwed beth yw dy anabledd, salwch hirdymor neu gyflwr iechyd

- [ ] Dydy hyn ddim yn berthnasol i fi.
- [ ] Salwch hirdymor neu gyflwr iechyd, fel canser, HIV neu diabetes.
- [ ] Anhawster iechyd meddwl, fel iselder neu gorbryder.
- [ ] Nam gyda dy gorff neu sut rwyt ti'n symud o gwmpas.
- [ ] Nam gyda sut rwyt ti'n cymysgu gyda phobl arall ac yn siarad gyda phobl.
- [ ] Anhawster dysgu, fel dyslexia neu ADHD.
- [ ] Dall neu nam ar dy lygaid sydd ddim yn gwella gyda sbectol.

*Mae mwy o atebion ar y dudalen nesaf.*

- [ ] B/byddar neu nam ar dy glyw.
- [ ] Nam, cyflwr iechyd neu wahaniaeth dysgu sydd ddim yn y rhestr uchod.
- [ ] Dydw i ddim am ddweud.



**Cwestiwn 8:** Pa hil neu **gefndir ethnig** sy’n dy ddisgrifio di?

Dy **gefndir ethnig** yw dy hil a’r wlad y mae dy deulu yn dod ohoni.



☐ **Arabeg.**



**Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig**

☐ Bangladeshaidd.

☐ Tsieineaidd.

☐ Indiaidd.

☐ Pacistanaidd.

☐ Arall.



## Du neu Du Prydenig

- [ ] Africanaidd.
- [ ] Caribïaidd.
- [ ] Arall.



## Hil Gymysg

- [ ] Du a Gwyn.
- [ ] Asiaidd a Gwyn.
- [ ] Du ac Asiaidd.
- [ ] Arall.



## Teithiwr

- [ ] Sipsi neu Roma.
- [ ] Gwyddelig.



**Gwyn**

- [ ] Prydeinig (Cymraeg, Saesneg, Albanaidd neu Gwyddelig o Ogledd Iwerddon).
- [ ] Gwyddelig.
- [ ] Ewropeaidd.



**Arall**

- [ ] Dydw i ddim am ddweud.
- [ ] Hil neu grŵp ethnig arall, dwed pa un yma:



**Cwestiwn 9:** Beth yw dy gyfeiriadedd rhywiol?

Dyma pwy wyt ti’n cael dy ddenu ato.

- ☐ **Anrhywiol** – ti ddim yn teimlo atyniad rhywiol at unrhyw un
- ☐ **Deurywiol** – rwyt ti’n cael dy ddenu at fwy nag un rhyw
- ☐ Dyn Hoyw
- ☐ Menyw Hoyw neu Lesbiaidd
- ☐ Heterorywiol neu Syth
- ☐ Dydw i ddim am ddweud
- ☐ Arall



**Cwestiwn 10**: Beth yw dy grefydd?

- [ ] Bwdhaeth
- [ ] Cristnogaeth
- [ ] Hindŵaeth
- [ ] Iddewiaeth
- [ ] Islam
- [ ] Sikh
- [ ] Dim crefydd
- [ ] Crefydd arall
- [ ] Dydw i ddim am ddweud



**Cwestiwn 11**: A wyt ti'n briod neu mewn **partneriaeth sifil**?

Mae **partneriaeth sifil** yn ffordd o wneud perthynas yn gyfreithlon heb fod yn briod

☐ Ydw

☐ Nac ydw

☐ Dydw i ddim am ddweud



**Cwestiwn 12:** A wyt ti'n aelod o Gymuned y Lluoedd Arfog?

Mae hyn yn golygu dy fod yn gyn-filwr, yn filwr wrth gefn, yn wirfoddolwr oedolyn yn y llu cadetiaid neu'n aelod o deulu rhywun yn y Lluoedd Arfog.

☐ Ydw

☐ Nac ydw

☐ Dydw i ddim am ddweud



**Cwestiwn 13a:** A wyt ti'n gofalu am rywun heb gael dy dalu, fel aelod o'r teulu, ffrind neu gymydog?

☐ Ydw

☐ Nac ydw

☐ Dydw i ddim am ddweud



**Cwestiwn 13b:** Os wnes di roi tic wrth ydw, ticia unrhyw un o'r blychau sy'n berthnasol i ti.

☐ Fi yw prif ofalwr plentyn neu blant anabl.

☐ Fi yw prif ofalwr oedolyn neu oedolion anabl (dros 18 oed).

☐ Fi yw prif ofalwr person neu bobl hŷn (dros 65 oed).

☐ Rwy'n ofalwr cefnogol, rhywun arall yw'r prif ofalwr.

☐ Dydw i ddim am ddweud.



**Cwestiwn 14:** Faint o arian sy'n dod i mewn i dy gartref bob blwyddyn?

Dyma'r holl arian sy'n dod i mewn i bawb sy'n byw yn dy gartref.

- ☐ Dan £10,000.
- ☐ £10,001 to £20,000.
- ☐ £20,001 to £30,000.
- ☐ £30,001 to £40,000.
- ☐ Dros £40,000.
- ☐ Dydw i ddim am ddweud.



**Cwestiwn 15**: Beth yw dy brif iaith?

- ☐ Cymraeg
- ☐ Saesneg
- ☐ Dydw i ddim am ddweud
- ☐ Arall (gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain) - dwed yma:




**Cwestiwn 16**: Pa iaith wyt ti am i ni ddefnyddio wrth gysylltu â ti?

- ☐ Cymraeg
- ☐ Saesneg
- ☐ Dydw i ddim am ddweud
- ☐ Arall (gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain) - dwed yma:

Cynhyrchwyd y llyfryn Hawdd ei Ddeall hwn gan easy-read-online.co.uk Mae’r llyfryn yn cynnwys delweddau wedi’u trwyddedu gan Photosymbols a Shutterstock.